



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad "Diweddaru  
cyfraith sy'n ymdrin â bwyd yng Nghymru wrth baratoi ar

Mawrth 2019

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.  
This document is also available in English.

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law Llywodraeth Cymru ynghylch y ddogfen ymgynghori *Diweddarau cyfraith sy'n ymdrin â bwyd yng Nghymru wrth baratoi ar gyfer Brexit*.

## Cynulleidfa

Sefydliadau y diwydiant bwyd, busnesau (e.e. gweithgynhyrchwyr, cyfanwerthwyr a manwerthwyr cynnyrch bwyd) a chyrff gorfodi; grwpiau defnyddwyr; rhanddeiliaid eraill y diwydiant ac eraill (e.e. sefydliadau nad ydynt yn llywodraeth) sydd â buddiant mewn deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â bwyd.

## Rhagor o wybodaeth

Is-adran Fwyd, Pedwerydd Llawr y Gogledd, Colofn MO3  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
E-bost: FoodEUExitConsultation@gov.wales  
YmgynghoriadBwydYmadaelA'rUE@llyw.cymru

## Copïau Ychwanegol

Fe welwch y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://beta.llyw.cymru/cymorth-i-ffermwyr-cymru-ar-ol-brexit>

# Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	3
2. Yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad.....	3
3. Cwestiynau a chrynodeb o ymatebion.....	4
4. Y Camau Nesaf.....	7
5. Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr.....	8

# 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad rhwng 11 Ionawr 2019 a 19 Chwefror 2019 ar y newidiadau arfaethedig i gywiro camgymeriadau yn Offerynnau Statudol Cymru (OSau) sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r prif themâu o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ac i ddarparu ymateb Llywodraeth Cymru.

Roedd yr ymgynghoriad ynghylch diwygiadau arfaethedig Gweinidogion Cymru:

- (a) i ddiweddarau cyfeiriadau at gyfraith yr UE mewn OSau yng Nghymru sydd angen eu diweddarau. Bydd y diwygiadau arfaethedig hyn, ym marn Gweinidogion Cymru, yn sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol yn y maes hwn yn gyfredol pan fydd y DU yn ymadael â'r UE; ac
- (b) i OSau a ddaw o gyfraith yr UE sy'n gysylltiedig â safonau marchnata bwyd a labelu a llaeth mewn ysgolion. Mae'r diwygiadau arfaethedig hyn o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ym marn Gweinidogion Cymru, yn sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol yn y maes hwn yn parhau yn weithredol os bydd y DU yn ymadael â'r UE 'heb gytundeb'.

Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru a chafodd ei dosbarthu'n uniongyrchol i randdeiliaid. Roedd yr ymatebwyr yn gallu defnyddio templed y ffurflen ymateb ar ffurf copi caled neu mewn fformat electronig, neu ddefnyddio'r ffurflen arolwg ar-lein a ddarparwyd neu ymateb drwy lythyr neu e-bost. Yn ystod y cyfnod ymgynghori daeth saith o ymatebion i law. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r rhai hynny a dreuliodd amser yn cyflwyno eu safbwyntiau.

## 2. Yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad - trosolwg

Cafodd pob ymateb ei ystyried a'i ddadansoddi. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cefnogi'r newidiadau, ac roedd yr ymatebion i'r cynigion yn bositif a chefnogol.

Gwnaeth fwyafrif y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad hynny mewn e-bost neu ar y ffurflen ymateb ar-lein. Bu i rai o'r ymatebwyr ateb yr holl gwestiynau yn uniongyrchol, tra bo eraill wedi ysgrifennu am y materion cyffredinol yr oeddent am eu codi.

Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb ac mae rhestr o ymatebwyr i'w weld yn Atodiad A.

### **Tabl 1: Ymatebion i'r ymgynghoriad gan wahanol fathau o ymatebwyr**

---

Unigolion	2
Corff/Grŵp Cynrychioladol	2
Elusennau	1
Cynghorau Cymuned a Thref	2

---

Cyfanswm	7
----------	---

### **3. Cwestiynau a chrynodeb o ymatebion**

Roedd yr ymatebion yn dangos nifer o themâu, sydd wedi eu crynhoi isod:

#### **Cwestiwn 1**

Hoffem wybod eich barn am yr effaith a gaiff y cynigion hyn ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a hefyd yr effaith a gânt o ran bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â'r Saesneg. Yn eich barn chi, beth fyddai'r effaith? Sut y gellir cynyddu'r effaith gadarnhaol, neu liniaru'r effaith negyddol?

Roedd yr ymatebwyr yn bositif ynghylch yr angen i gydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg

Roedd un ymatebydd yn codi'r posibilrwydd o ddefnyddio canllawiau cyffredinol

'Cymraeg clir' ar fwyd yng Nghymru.

## Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Safonau'r Iaith Gymraeg yn gosod dyletswydd ar bob un o gyrff y gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau nad

yr iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ac i hyrwyddo'r defnydd ohoni.

Bydd unrhyw ddatblygiadau pellach o ran canllawiau bwyd yng Nghymru yn cael eu gwneud yn y Gymraeg a'r Saesneg

i gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg.

### Cwestiwn 2

Eglurwch hefyd pam yr ydych yn credu y gellid ffurfio'r polisi arfaethedig neu ei newid fel y caiff ddylanwad positif neu fwy o ddylanwad positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn yr un ffordd â'r Saesneg, ac na fydd unrhyw ddylanwad anffafriol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Nid oedd gan fwyafrif yr ymatebwyr unrhyw sylwadau penodol ynghylch y cwestiwn hwn neu roeddent yn dewis peidio gwneud sylw. Pwysleisiodd un ymatebydd yr effaith gadarnhaol o bosibl y gallai'r newidiadau hyn eu cael ar y Gymraeg.

## Ymateb Llywodraeth Cymru:

Yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd nid oes tystiolaeth y bydd y newidiadau'n cael unrhyw effaith (positif neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg.

### Cwestiwn 3

Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig ynghylch y Rheoliadau dan sylw?

Roedd yr holl ymatebion o blaid y cynnig, ac yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol yn parhau i fod yn weithredol, yn enwedig mewn sefyllfa 'heb gytundeb'. Pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen i gynnal safonau uchel ar draws y meysydd y mae'r rheoliadau'n cael effaith arnynt yn yr ymgynghoriad hwn, yn enwedig er mwyn hwyluso masnach yn y dyfodol gyda'r UE. Roedd ymholiad ynghylch sut y byddai'r safonau

hyn yn cael eu cynnal heb oruchwyliaeth yr UE. Gwnaethpwyd pwynt ynghylch yr angen i sicrhau bod y cynlluniau hanfodol yn parhau, megis darparu llaeth mewn ysgolion.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae Llywodraeth Cymru yn teimlo bod angen cynnal ein safonau uchel yn y gadwyn cyflenwi bwyd fel blaenoriaeth allweddol i barhau i amddiffyn cwsmeriaid yng Nghymru ac i sicrhau bod cynnyrch o Gymru yn fwy cystadleuol. Fel a nodir yn *Sicrhau Dyfodol Cymru*, mae Llywodraeth Cymru'n credu bod mynediad lawn a di-rwystr i Farchnad Fewnol yr UE gan gynnwys ar gyfer ein prif gynnyrch amaethyddol a bwyd yn hanfodol i fuddiannau Cymru a'r DU yn gyffredinol yn y dyfodol.

#### **Cwestiwn 4**

A oes unrhyw bwyntiau ychwanegol yr hoffech eu gwneud ynghylch y newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â safonau cyfansoddiad bwyd a marchnata a labelu?

Gofynnodd ymatebwyr am fwy o wybodaeth ynghylch effaith y newidiadau o ran y gost ac am ragor o fanylion am y diwygiadau. Gofynnodd un ymatebydd a fyddai diwygiadau eraill yn cael eu gwneud i'r Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010 i ddileu cyfeiriadau tuag at ddeddfwriaeth yr UE.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae'r newidiadau arfaethedig yn dechnegol ac yn cywiro, yn hytrach na newid neu ychwanegu at rwymedigaethau presennol. Ar y sail yma mae disgwyl na fydd yn cymryd llawer o amser i ddod yn gyfarwydd â'r newidiadau, ac y bydd unrhyw effaith ariannol ar hyn o bryd yn isel iawn.

Mae'r Papur Ymgynghori yn rhoi enghreifftiau i randdeiliaid o'r mathau o ddiwygiadau sy'n cael eu cynnig. Mae cyfeiriadau at Gyfarwyddeb 2000/13/EC yn y Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010 yn cael eu diwygio.

## Cwestiwn 5

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi.

Gofynnodd dau ymatebydd a fyddai y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 yn cael ei diwygio gan yr OS hwn.

Rhoddodd ymatebydd arall awgrym y dylid cymryd y cyfle hwn i wneud newidiadau polisi ehangach i Reoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2017, er enghraifft ehangu'r rhestr o gynnyrch 'llaeth' i fodloni gofynion dietegol a ffordd o fyw yn well, neu ehangu'r cynllun fel ei fod yn cynnwys ffrwythau a llysiau.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 yn cael eu diwygio gan y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid ac Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019. Gwnaethpwyd yr OS hwnnw ar 21 Ionawr 2019.

O ran yr ymholiad ynghylch Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2017, pwrpas y newidiadau arfaethedig yw diogelu ein fframwaith rheoleiddio, a sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol ac yn gyfredol wrth inni ymadael â'r UE. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiwygio ein Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion 2013<sup>1</sup>

## **4. Camau a gymerwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi edrych ar yr holl ymatebion a byddant yn mynd ymlaen â'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad.

<sup>1</sup> <https://beta.llyw.cymru/y-mor-a-physgodfeydd>.



## Atodiad A

Rhestr o ymatebwyr oedd yn dewis peidio â bod yn ddi-enw:

Enw'r Ymatebydd	Sefydliad
Arlene Pryce	Heb ei nodi
John Howe	Heb ei nodi
Amanda Baker	The Vegan Society
Paul Church	Y Gynghair Llaeth Ysgolion a Meithrinfeydd
Gary Lewis	Rhondda Cynon Taf
Gwyn Howells	Hybu Cig Cymru - Hybu Cig Cymru
Dilys Harris	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili